# Cyflwyniad i'r Deunyddiau Cymorth Ymarferol

# Prosiect Camau i'r Dyfodol

- Prosiect tair blynedd i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm yng Nghymru.

**Cam 1**

- Cwricwlwm, Asesu, Addysgeg, Cynnydd Dysgu.
- Ymagwedd at ddylunio ar y cyd.
- Trafodaethau ag ymarferwyr a gweithwyr addysg broffesiynol.

**Cam 2**

- Grŵp dylunio ar y cyd: Dod â phobl ynghyd o bob rhan o'r system.
- Arbenigedd cyflenwol, gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth.
- Dyfnhau meddwl am y Cwricwlwm i Gymru.

# Beth wnaeth y grŵp cyd-adeiladu?

- Cyfarfod trwy gyfres o ddigwyddiadau ar-lein ac yn bersonol.
- Ystyried y cyfleoedd a'r heriau ('clymau') sy'n gysylltiedig â gwireddu Cwricwlwm i Gymru.
- Roedd y broses hon yn cynnwys gweithio gyda:
  - Dealltwriaethau a myfyrdodau ymarferwyr
  - Theori ac ymchwil

# Beth ddangosodd Cyd-adeiladu?

## (1) Dealltwriaethau gwahanol o Gwricwlwm i Gymru

- Roedd cyfranogwyr dylunio ar y cyd yn deall Cwricwlwm i Gymru mewn gwahanol ffyrdd
- Arweiniodd hyn at ddealltwriaeth wahanol o sut i wireddu CiG yn ymarferol.
- Roedd rhai o'r dealltwriaethau hyn wedi'u halinio'n well nag eraill â Chwricwlwm i Gymru fel cwricwlwm a arweinir gan bwrpas.
- 'Dw i'n meddwl ei bod hi'n saff dweud nad yw'r daith i Gwricwlwm i Gymru wedi bod yn un llinol, nac ydy? Y mae ym mhob agwedd, onid ydyw? Rydych chi wedi dod ymlaen ac yna mae angen i chi fynd yn ôl ac ailymweld…' (cyfranogwr dylunio ar y cyd)

# Beth ddangosodd Cyd-adeiladu?

## (2) Pwysigrwydd y broses dylunio ar y cyd

- Roedd y broses dylunio ar y cyd yn galluogi gwneud synnwyr parhaus ac yn cefnogi datblygiad cyd-ddealltwriaeth.
- Wrth ystyried pa ddeunyddiau y gellid eu cynhyrchu, roedd y cyfranogwyr am gefnogi eraill yn y system i brofi proses debyg o wneud synnwyr i gefnogi cyd-ddealltwriaeth o Gwricwlwm i Gymru, Asesu a Chynnydd.
- 'Ydyn ni'n gorffen gyda chynnyrch, enghraifft, astudiaeth achos? Neu a ydyn ni'n gorffen gyda phroses y gall gweithwyr proffesiynol gymryd rhan ynddi?' (cyfranogwr dylunio ar y cyd )

# Beth oedd y canlyniad?

- Y deunyddiau cymorth ymarferol a rennir yma i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.
- Datblygwyd y deunyddiau o waith a meddylfryd y grŵp dylunio ar y cyd , yn ogystal â thystiolaeth ryngwladol.
- Deunyddiau sy'n 'adlewyrchol i [weithwyr proffesiynol] eu defnyddio ar bob lefel – ar gyfer penaethiaid neu uwch arweinwyr, penaethiaid adran – a ffordd o edrych a dweud 'iawn, sut mae hyn yn gweithio yn ein hysgol ni? Ydyn ni'n meddwl am hynny?' (cyfranogwr dylunio ar y cyd )

# Gweithio gyda'r Deunyddiau Cymorth Ymarferol

## Prosiect Camau i'r Dyfodol: Trosolwg Deunyddiau Cymorth Ymarferol

Cyflwyniad → 1. Deall Cwricwlwm i Gymru → 2. Asesu a chynnydd mewn cwricwlwm a arweinir gan y dibenion → 3. Gwireddu'r cwricwlwm: o gyd-destunau cenedlaethol i gyd-destunau lleol

| | 1. Deall Cwricwlwm i Gymru | 2. Asesu a chynnydd mewn cwricwlwm a arweinir gan y dibenion | 3. Gwireddu'r cwricwlwm: o gyd-destunau cenedlaethol i gyd-destunau lleol |
|---|---|---|---|
| **Syniadau Allweddol** | **Mewnbwn:** Sut ydyn ni'n deall Cwricwlwm i Gymru?<br><br>**Mewnbwn (Seminar 1):** Y dull o weithredu'r cwricwlwm a dysgu sy'n canolbwyntio ar broses | **Mewnbwn (Seminar 2):** Ailfeddwl asesu: o fesur perfformiad i gefnogi dysgu<br><br>**Mewnbwn (Seminar 3):** Sut ydyn ni'n deall cynnydd? | **Mewnbwn:** Gwireddu'r cwricwlwm: safbwyntiau rhyngwladol |
| **Archwilio ymhellach** | Cydlyniant y cwricwlwm | Dysgu ac addysgu neu berfformiad a chyfarwyddyd | Cyfweliad gyda'r Athro Cyswllt Jenny Poskitt<br>Cyfweliad gyda'r Athro Chris DeLuca<br>Cyfweliad gyda'r Athro Kari Smith |
| **Meddwl ar waith** | Dulliau o greu cwricwlwm | M.O.T Cwricwlwm | Cyd-ddatblygu Cwricwlwm<br>Cyfathrebu gyda rhanddeiliaid<br>Diwylliant a meddylfryd |

# Cyfeirnodau

- Dolfing, R, Prins, GT, Bulte, AMW, Pilot, A, Vermunt, JD. Strategies to support teachers' professional development regarding sense-making in context-based science curricula. Science Education. 2020; 105: 127–165. https://doi.org/10.1002/sce.21603

# Camau i'r Dyfodol

Cynnydd Dysgu i Gymru | Learning Progression for Wales

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

University of Glasgow